


# Dosbarthu Anifeiliaid



## Bwriad Dysgu

- Dosbarthu creaduriaid yn ôl cysyniadau: ymddangosiad, atgenhedlu, deiet a chynefinoedd.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth -** Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol.

**ADCDF -** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Rhaid i'r plant ddarllen a chysylltu'r datganiadau â'r creaduriaid.
- Rhaid i'r plant drafod/cyfnewid gwybodaeth rhwng grwpiau.
- Rhaid iddynt ddosbarthu'r creaduriaid yn briodol.
- Rhaid iddynt ddatblygu eu hallweddau eu hunain ar gyfer pob datganiad lliw.

## Adnoddau

Cerdyn creaduriaid darluniadol
Grwpiau o ddatganiadau côd lliw ar gyfer pob creadur -
Coch: atgenhedlu
Glas: ymddangosiad
Gwyrdd: deiet
Du: cynefin/lleoliad
Taflen ddosbarthu - echinoderm, molwsg, cramenogion, pysgodyn, aderyn a mamolyn
Taflenni trefnu gwybodaeth

# Dosbarthu Anifeiliaid

**Amlinelliad o'r Wers**

- Rhannu’r dosbarth yn grwpiau o bedwar.
- Dangos y lluniau o bob creadur a rhoih un i bob grŵp.
- Esbonio bod pedwar datganiad â chôd gwahanol i fynd gyda phob llun.
- Rhannu’r holl ddatganiadau (wedi'u cymysgu) rhwng y plant. Pedwar datganiad yn unig sydd gan bob grŵp.
- Mae pob disgybl yn derbyn un o'r datganiadau hyn.
- Rhaid i'r grŵp ceisio cysylltu'r cliwiau â'u creadur.
- Bydd yn rhaid iddynt gyfnewid/drafod â grwpiau eraill i ddarganfod yr holl gliwiau am eu creadur (gweithgaredd yn y farchnad).
- Unwaith y cesglir yr holl gliwiau, bydd y plant yn defnyddio'r daflen ddosbarth i ddosbarthu eu creadur.
- Unwaith y'i cwblheir, ail-ddarllen y cardiau datganiad i benderfynu ar eu penawdau eu hunain am bob datganiad lliw (taflenni trefnu gwybodaeth).

## **Molysgiaid**

Mae gan folysgiaid gyrff meddal ac maent yn byw mewn cregyn.
Mae ganddynt un troed ar gyfer symud.
Mae'r rhan fwyaf o folysgiaid yn byw mewn dŵr.



Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?

- [ ] Sut mae'n atgenhedlu?
- [ ] Beth mae'n ei fwyta?
- [ ] Sut olwg sydd arno?
- [ ] Ble mae'n byw?

Mae ein larfâu yn drifftio am gyfnod a all ymestyn o 3 i 6 mis cyn aros ar graig.

Gallwch ddod ar fy nhraws mewn pyllau trai pan fo'r llanw'n isel.

Mae gen i un troed er mwyn symud.

Rwy'n ffiltro dŵr môr ac yn bwyta plancton.

Rwy'n cludo fy wyau o dan fy nghorff am gyfnod a all ymestyn o 9 i 12 mis.

Rwy'n byw ar waelod y môr.

Cliwiau am y cimwch

Mae gen i ddau binsiwrn pwerus i ymladd a dal bwyd megis mwydod a chramenogion eraill.

Rwy'n las tywyll ac mae gen i ddeg coes a sgerbwd allanol caled.

Mae fy larfâu yn byw yn y dŵr agored cyn tyfu'n oedolion ac ymsefydlu ar lawr y môr.

Rwy'n byw ar wely'r môr neu'n cydio wrth greigiau mewn pyllau trai.

Cliwiau am y seren fôr

Rwy'n dwlu ar fwyta cregyn gleision, wystrys a chregyn bylchog.

Fel arfer mae gen i 5 braich a gallaf symud i bob cyfeiriad.

Cliwiau am y morlo

Caiff fy lloi bach eu geni yn yr hydref. Rwy'n eu bwydo â'm llaeth llawn braster fel y gallant dyfu'n gyflym.

Rwy'n byw yn y môr, ond mae fy lloi bach yn cael eu geni ar lan y môr.

Rwy'n bwyta amrywiaeth o bysgod, ond rwyf hefyd yn bwyta octopws, môr- lawes a chimwch.

Mae gen i ffwr a braster i gadw'n gynnes ac esgyll cryf i nofio.

Cliwiau am yr wylan

Rwy'n dodwy tri neu bedwar ŵy brith mewn nythod a wneir o lystyfiant.

Fel arfer, rwy'n trigo ar yr arfordir neu yng nghanol y tir. Prin byddaf yn mentro'n bell yn y môr.

Rwy'n bwyta ysglyfaeth megis crancod a physgod bach, neu rwy'n chwilio am sbarion.

Mae gen i blu golau neu lwyd.

Mae gen i gragen golfachog sy'n agor er mwyn cymryd bwyd.

Gallwch ddod ar fy nhraws mewn pyllau trai tra bod llanw isel.

Cliwiau am y gragen las

Rwy'n ffiltro dŵr y môr ac yn bwyta plancton.

Mae gen i un troed er mwyn symud.

Rwy'n anadlu trwy dagellau.

Rwy'n byw yn y môr agored.

Cliwiau am bysgodyn

Rwy'n bwyta pysgod bach.

Mae gen i esgyll.













Taflen ddosbarthu (Un copi ar gyfer pob grŵp)

## Mammaliaid

Mae gan bob mamal flew neu ffwr.
Mae gan bob mamal waed twym.
Mae pob mamal yn rhoi genedigaeth i rai ach byw.
Mae mamaliaid yn cynhyrchu llaeth.

## Molysgiad

Mae gan folysgiaid gyrff meddal ac maent yn byw mewn cragen.
Mae ganddynt un troed er mwyn symud.
Mae'r rhan fwyaf o folysgiaid yn byw mewn dŵr.

## Echinodermau

Mae pob echinoderm yn byw yn y môr.
Efallai y bydd gan echinodermau groen pigog.
Fel arfer mae ganddynt 5 braich fel seren.
Nid oes ganddynt lygaid, ymennydd na chalon.

## Cramenogion

Mae gan bob cramennog gragen galed fel cranc.
Mae ganddynt ddau bâr o deimlyddion.

## Pysgod

Mae gan bob pysgodyn dagellau.
Mae'r rhan fwyaf o bysgod yn byw yn y dŵr.
Mae gan y rhan fwyaf o bysgod esgyll.
Mae gan y rhan fwyaf o bysgod gennau ac asgwrn cefn.

## Adar

Mae gan bob aderyn waed twym.
Mae gan adar blu.
Mae pob aderyn yn dodwy wyau.

Trefnu Gwybodaeth - Pa wybodaeth yr ydym yn ei defnyddio i ddosbarthu rhywogaeth?
(Un copi ar gyfer pob grŵp)

## Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?

- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________

## Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?

- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________
- [ ] ________________________________